Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol Arfaethedig

Penodi Cadeirydd

This is an advertisement for the Chair of the proposed Coleg Cymraeg Cenedlaethol to support Welsh medium higher education. The ability to communicate fluently in Welsh is essential for this appointment.

Mae datblygiad newydd pwysig ar y gweill ym maes addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Fel rhan o *Er Mwyn Ein Dyfodol*, strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, cynigir sefydlu Coleg Cymraeg Cenedlaethol a fydd yn gweithio gyda a thrwy bob prifysgol yng Nghymru i ddarparu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr astudio eu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bwriedir sefydlu'r Coleg fel cwmni cyfyngedig drwy warant, gyda phrifysgolion Cymru a rhanddeiliaid eraill yn aelodau, a Bwrdd Cyfarwyddwyr o 13. Mae'r gwaith o sefydlu'r Coleg yn mynd rhagddo'n dda a gobeithir cwblhau ei gorffori erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn cynorthwyo gyda'r trefniadau ar gyfer sefydlu'r Coleg. Felly rydym yn awr yn ceisio Cadeirydd annibynnol ar gyfer Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar ran y Coleg arfaethedig.

Fel Cadeirydd, byddwch yn darparu arweinyddiaeth awdurdodol i alluogi'r Coleg i gyflawni ei gyfrifoldebau a chynnal safonau uchaf llywodraethu corfforaethol. Bydd gennych brofiad o arweinyddiaeth drefniadaethol ar lefel strategol, sgiliau penderfynu ardderchog, y gallu i gyfathrebu a dylanwadu ar bob lefel, a'r gallu i adeiladu partneriaethau effeithiol. Bydd gennych wybodaeth a phrofiad da o faterion addysgol, ynghyd â'r gallu i osod y rhain, ac addysg cyfrwng Cymraeg yn fwyaf arbennig, o fewn cyd-destun anghenion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru. Mae'r gallu i gyfathrebu'n rhugl ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg yn hanfodol.

Croesawn geisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn cael eu cymhwyso a gwneir y penodiad ar sail teilyngdod.

I gael ffurflen gais a manylion pellach, cysylltwch â Dr Alison Allan, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cwrt Linden, Y Berllan, Clos Ilex, Llanisien, Caerdydd CF14 5DZ (ffôn 029 2068 2223, e-bost alison.allan@hefcw.ac.uk), neu ar wefan CCAUC (www. hefcw.ac.uk - "Newyddion/Beth sy'n newydd").

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw 10 Tachwedd 2010. Ni fydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried. Disgwyliwn gynnal cyfweliadau diwedd mis Tachwedd neu ddechrau mis Rhagfyr. Mae'r dyddiad cau wedi'i ymestyn i 19 Tachwedd 2010.